**Cyfoeth Naturiol** Cymru
**Natural Resources** Wales

Mr. Geoff Marquis
Rheolwr Amgylcheddol,
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Castell-nedd Port Talbot
Y Ceiau
Ffordd Brunei
Llansawel
Castell-nedd
SA11 2GG

**Ein cyf:** SH/2013/115442/01-L01
**Eich cyf:** Strategaeth 'Airwise'

**Dyddiad:** 20 Awst 2013

Annwyl Mr. Marquis

**Parthed: Ymgynghoriad·Strategaeth 'Airwise' ar gyfer Cyngor Castell-nedd Port Talbot.**

Diolch am ymgynghori â ni ar ddrafft diwygiedig Cyngor Castell-nedd Port Talbot o "Airwise - Clean Air for Everyone Strategy". Gwelwch ein sylwadau isod, a gobeithiwn y byddant yn ddefnyddiol wrth i'ch awdurdod ffurfio'r ddogfen derfynol.

Nodwch fod Cyfoeth Naturiol Cymru, ar 1 Ebrill 2013, wedi cyfuno gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein bwriad yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu defnyddio a'u gwella, yn awr ac i'r dyfodol.

**Cyflwyniad.**

Rydym wedi mynd ati i gyfranogi'n weithredol a gweithio gyda'ch awdurdod (a chyrff cyhoeddus eraill) i wella ansawdd aer o fewn y Fwrdeistref ac ardal Port Talbot yn benodol. Mae ymdrechion cyfunol yr holl bartneriaid yn graddol wella'r ansawdd er budd preswylwyr lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Gwerthfawrogwn bwysigrwydd hanfodol Strategaeth 'Airwise' o ran ansawdd aer a gallwch fod yn dawel eich meddwl fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhannu pryderon eich awdurdod ynglŷn â'r elfen bwysig a chanolog hon yn y polisi cyffredinol o wella ansawdd bywyd y boblogaeth.

**<u>Cyflwyniad i'r sylwadau.</u>**

Er mwyn eich cynorthwyo yn y mater hwn, byddwn yn cyflwyno ein sylwadau penodol yn y drefn gronolegol y maent yn ymddangos yn nogfen ddrafft y Strategaeth 'Airwise'. Bydd y pwyntiau'n cynnwys cyfeiriad at y testun i gynorthwyo'r darllenydd i asesu ein sylwadau.

Hefyd, cynigiwn rai sylwadau cyffredinol isod ac i gloi, ambell sylw cyffredinol ynglŷn ag effeithlonrwydd y ddogfen.

**Sylwadau cyffredinol.**

Mae gennym sawl sylw cyffredinol;

- Ar strwythur y ddogfen, yn ogystal â rhifau tudalen, byddai defnyddio rhifau paragraffau drwy'r ddogfen wedi bod yn fanteisiol i'r darllenydd.
- Hefyd, mae'r papur yn cyfeirio'n barhaol at Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a dylid newid hwn bellach i Cyfoeth Naturiol Cymru yn y testun a'r tablau.
- Eglurhad ar y symbolau amrywiol drwy'r ddogfen h.y. $CO_2$ : mg/m$^3$ ddylai fod.

**Sylwadau penodol.**

1. Paragraff agoriadol — Executive summary.

Ymddengys bod amryfusedd o ran dyddiad cyhoeddi'r ddogfen Airwise. Mae'n nodi February 2000, eto nodir mai 2002 yw'r dyddiad ym mharagraff 1.2.

2. Mae'r ail baragraff yn cyfeirio at "Modern Industry".

Ystyriwn fod y sefyllfa hon yn gysylltiedig â Diwydiant yn gyffredinol ac fel y cyfryw, dylai'r testun nodi "Industry" yn unig.

3. Our vision is.... 1. $PM_{10}$ in Port Talbot.

Onid 2012 ddylai hwn fod?

4. Issues of local concern. Tudalen 4.

Port Talbot area. $PM_{10}$ – fine particles less than 10 microns in diameter. These arise mainly from Industry; *traffic* and from....

5. Tudalen 4. — paragraff olaf ar y dudalen; onid *average = 40 ug$^3$* ddylai hwn fod? .

6. Tudalen 5.- paragraff PM 2.5

Dyblygu cymalau. "The *source of PM2.s includes trans-boundary sources as Saharan sand and European Industry which may have travelled many thousands..."* ddylai hwn fod.

7. Tudalen 6. Paragraff Ozone ($O_3$).

Dyblygu cymal yn yr un paragraff; *"If irritates the airways of the lungs...& irritating the airways."*

8. Tudalen 6. Ozone ($O_3$).

Gwall sillafu – brawddeg olaf ond un; *"no more tha!]_ten exceedences"* ddylai hwn fod.

9. Tudalen 7. Ffigur 4 Polyaromatic Hydrocarbon levels in Port Talbot.

Ystyriwn y byddai o fudd i'r darllenydd pe bai'r ffigur yn cynnwys gwerth Targed yr UE yn y graff a labeli/nodi'r llinellau eraill a ddynodir yn y ffigur yn eglur.

10. Tudalen 8. Ail baragraff.

Gwall sillafu — *diffusion* ddylai hwn fod, nid diltusion.

11. Tudalen 8. Ffigur 7. Nickel monitoring stations in Pontardawe. Mae'r lleoliadau yn y ffigur yn cael eu dangos yn goch NID gwyrdd.

12. Tudalen 9. Paragraff cyntaf.
Mae'r paragraff yn nodi ", Levels of nickel at this site have decreased substantially......are *hoped* to meet new European targets introduced in 2013". Oni ddylai'r strategaeth fod yn fwy cadarnhaol o ran iaith a naws yn hytrach na dim ond dweud "are hoped"? Oni fyddai'r geiriau "anticipated neu "expected" yn ennyn mwy o hyder yn y datganiad?

13. Tudalen 8. Ffigur 8 Nickel levels at Tawe Terrace.
Ystyriwn y byddai o fudd i'r darllenydd pe bai gwerthoedd targed perthnasol a labeli'n cael eu hychwanegu at y graff.

14. Tudalen 10. Paragraff cyntaf a'r ail baragraff, $mg/m^3$ ddylai hwn fod nid $mg/m^2$.

15. Tudalen 10. Trydydd paragraff.
"All these sites are in close proximity to an industrialised area *and a major construction project (PDR)"* ddylai'r frawddeg hon fod.

16. Tudalen 10. Pedwerydd paragraff.
Ceir cyfeiriad yma at waith glo brig Ochr y Waun, Cwmllynfell yn croesi'r trothwy 80 $mg/m^3$ y diwrnod -a oes camau ar y gweill i ddatrys y sefyllfa?

17. Tudalen 11. Paragraff 4.2 1.$PM_{10}$ in Port Talbot. Ail baragraff.
Mae'r paragraff hwn yn gwneud sylw ysgubol sy'n agored i'w gwestiynu. Rydym yn argymell datganiad gwahanol; " Levels of $PM_{10}$ and exceedences are continuing to gradually decrease below the EU objectives but we will continue strive to seek even greater improvements in the local air quality".

18. Tudalen 12. Ail baragraff.
Dylai'r paragraff hwn nodi fel hyn; Pollution was carried up and down the valley until a task group set about modelling and which instigated investment by the owners of the Mond (now Vale) works allowing it to operate within EU targets.

19. Tudalen 12. Pedwerydd paragraff.
Rydym yn cwestiynu dilysrwydd y datganiad fod "nickel levels continue to fall towards EU targets" gan y gallai'r lefelau fod wedi brigo'n sydyn yn 2013.

20. Tudalen 12. Chweched paragraff.
"Again... around nickel companies within the Neath Valley" ddylai'r frawddeg olaf fod.

21. Tudalen 15. Paragraff cyntaf.
Gwall teipio. "The Council will continue to carry out it's" - *"its"* ddylai hwn fod.

22. Tudalen 15. Air Quality Action Plan (AQAP).
Planning policies – Unitary Development plan and forthcoming Local Development Plan.
Rydym wedi bod wrthi'n trafod y mater penodol hwn ag adran Gynllunio eich awdurdod ac yn archwilio fframwaith polisi posibl er mwyn effeithio ar $PM_{10}$ ym Mhort Talbot.

Rydym yn disgwyl cyfle i wneud sylwadau am y materion/polisïau ansawdd aer yn y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo sydd i'w gyhoeddi ddiwedd mis Awst.

23. Tudalen 15. Air Quality Action Plan. (AQAP).
Newid i enw'r cwmni – Civil and Marine Slag Cement — fe'i gelwir bellach yn Hanson Cement.

24. Tudalen 18. EAW (NRW) & NPTCBC regulation.
*"Both EA (NRW) & NPTCBC regulate these businesses using permits and NPTCBC is working to improve operations at Wall Co/monoy moving them towards achieving BAT"* ddylai hwn fod.

25. Tudalen 18. EAW (NRW) & NPTCBC regulation.
Ceir datganiad yn y testun sy'n nodi "to be reviewed by European Commission by 2013". Ond nid yw'n eglur beth sydd i'w adolygu.

**Sylwadau cyffredinol.**

1. Mae yna hanes hir o gydweithio a chydgysylltu rhwng eich awdurdod â ni (Asiantaeth yr Amgylchedd yn flaenorol a Cyfoeth Naturiol Cymru fel ei gilydd) ym maes ansawdd aer. Mae'r berthynas gadarnhaol hon yn ymestyn i weithgareddau amgylcheddol eraill ac mae wedi bod o'r pwys mwyaf ym maes Cynllunio Trefol gan gyfeirio'n bennaf at Gynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot. Cyflwynwn y sylwadau uchod gyda'r synnwyr yma o bwrpas cyffredin ar gyfer gwella'r amgylchedd, a gobeithiwn y byddant o gymorth ac yn gwneud Strategaeth Airwise ar gyfer Castell-nedd Port Talbot yn fwy eglur.

2. Nodwn mai un o nodau penodol y strategaeth yw sicrhau bod ansawdd aer yn y Fwrdeistref Sirol drwyddi draw yn rhagori ar safonau gofynnol deddfwriaeth yr UE a'r DU, sy'n nod blaengar ac uchelgeisiol iawn. A yw hyn yn gosod y safon yn rhy uchel? Oni fyddai cynnydd fesul cam yn gysylltiedig ag amserlenni yn ddoethach?

3. Mae hyn felly yn ein harwain at un o'r elfennau allweddol sydd i'w weld ar goll o'r strategaeth, h.y. llinell amser/amserlenni ar gyfer oes y Strategaeth. Dyma rai cwestiynau a allai fod yn berthnasol yn y fan hon;

- Pa hyd o amser sydd o dan ystyriaeth ar gyfer y Strategaeth?
- Pryd y caiff ei hadolygu eto?
- A ragwelir y bydd amserlen y Strategaeth yn rhedeg yn gyfochrog â'r Cynllun Datblygu Lleol, neu gynllun arall, fel y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei argymell?

4. I orffen, rydym yn ddiolchgar i chi am ymgynghori â ni ar y cyhoeddiad "Airwise; Clean Air for everyone" a chroesawn y cyfle gwerthfawr hwn i gyfrannu at bolisi a chanllawiau ar gyfer y dyfodol. Yn naturiol, byddwn yn hapus i gyfarfod a thrafod ein sylwadau ar y ddogfen os oes angen, a gobeithiwn yn ddiffuant y bydd ein perthynas waith ragorol yn parhau i helpu i wella ansawdd aer Castell-nedd Port Talbot.

Yn ddiffuant / Yours sincerely

**Mr. David Watkins**
**Technical Specialist**

Arbenigwr Technegol

Deialu uniongyrchol 01792 325 533
E-bost uniongyrchol david.watkins@naturalresourceswales.gov.uk